**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**6ed Chwefror 2012**

**YR AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU: DOGFEN ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL A THRAFOD**

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y datblygiadau ers cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Rhagfyr 2011.

## Y Cefndir

2 Yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod, cyflwynwyd y ddogfen "Yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru: Dogfen Achos Amlinellol Strategol a Thrafod" (y ddogfen) gan y Prif Swyddog Tân. Yn dilyn trafodaeth, cymeradwywyd yr argymhelliad gan yr Aelodau i gefnogi'r opsiwn yr oedd y Prif Swyddogion Tân yn eu ffafrio, ac awdurdodi Cadeirydd yr Awdurdod i sefydlu "Pwyllgor Materion Cenedlaethol". Er gwybodaeth i'r Aelodau, mae eitem 18 ar agenda cyfarfod 19eg Rhagfyr 2011 yn darparu rhagor o fanylion.

## Gwybodaeth

3 Yn dilyn penderfyniad yr Aelodau ar 19eg Rhagfyr 2011, rhannwyd y ddogfen gyda swyddogion LlC, a ddywedodd fod Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, yn dymuno ei thrafod gyda'r Cadeiryddion a'r Prif Swyddogion Tân mewn cyfarfod i'w drefnu ar 12 Ionawr 2012.

4 Yn y cyfarfod hwnnw, dywedodd y Gweinidog fod ganddo rai cwestiynau ynglŷn â rhagor o fanylion y byddai'n hoffi i'r Awdurdodau Tân ac Achub ymateb iddynt cyn y byddai mewn sefyllfa i gefnogi'r ddogfen ai peidio. I'r diben hwnnw, cytunwyd y byddai'r swyddogion yn cyflwyno'r cwestiynau hynny yn ysgrifenedig, ac yna'n cael trafodaeth gyda'r tri Phrif Swyddog Tân. Cynhaliwyd y drafodaeth honno ar 24ain Ionawr 2012.

5 Erbyn hyn, cychwynnodd y gwaith o sefydlu'r Pwyllgor. Bydd adroddiadau rheolaidd ar y cynnydd yn dod gerbron y Panel Gweithredol a'r Awdurdod Tân ac Achub.

**Argymhelliad**

6 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.